

### Tasg 3

## Pa mor h-ap-us ydych chi?

### Dim ffôn

1. Yn y fforwm, does gan Alys ddim ffôn. Pam does ganddi hi ddim ffôn?

2. Pa gyngor mae Adina a Ben yn ei roi i Alys?

3. Efallai bod gan rieni Alys resymau eraill pam dydyn nhw ddim eisiau iddi hi gael ffôn, e.e. rhesymau diogelwch. Pam bydden nhw'n poeni am ddiogelwch?

Os ydych chi eisiau syniadau, edrychwch ar y wefan yma:

<https://www.meiccymru.org/cym/ddim-yn-cael-ffon-symudol/>

Does dim angen i chi ddarllen yn fanwl – sgimiwch y darn am syniadau.

Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.

4. Mewn grŵp, trafodwch sut mae defnyddio'r ffôn symudol yn gyfrifol ac yn ddiogel. Gwnewch nodiadau wrth i chi drafod ac yna cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

5. Gwnewch boster i ddangos i ddefnyddwyr ifanc sut mae defnyddio'r ffôn yn gyfrifol ac yn ddiogel.